Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mehefin 2018

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35312 ISBN digidol 978-1-78937-441-4

## Cynnwys

Cyflwyniad

Trosolwg

Meysydd i'w datblygu

Trefniadau mynediad: gwybodaeth, cyngor a chymorth

Asesiad

Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

Diogelu

Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

Methodoleg

Cydnabyddiaethau

## Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gynnal arolygiad o wasanaethau i blant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2018.

Seiliwyd ein dull ar gyfer yr arolygiad ar yr wyth datganiad llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig fel yr amlinellir yn *Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* Llywodraeth Cymru (Mawrth 2016). Mae ein hymagwedd yn adeiladu ar safonau ansawdd cysylltiedig yr awdurdodau lleol a nodwyd yn y *Cod Ymarfer ar gyfer Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol*, a gyhoeddwyd dan Adran 145 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).Yn ogystal â hyn, ystyriodd yr arolygiad allu'r awdurdod lleol i wella drwy ddadansoddi'r arweinyddiaeth a'r gwaith o lywodraethu swyddogaethau ei wasanaethau cymdeithasol.

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r trefniadau i helpu ac amddiffyn plant a'u teuluoedd. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- profiad a chynnydd plant ar ffiniau gofal, plant sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys ansawdd ac effaith gwasanaethau ataliol, effeithiolrwydd y penderfyniadau a wneir, gofal a chymorth, a chynllunio llwybrau
- y trefniadau ar gyfer darparu sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n dychwelyd adref, gan gynnwys defnyddio lleoliadau maethu, lleoliadau gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i ardal yr awdurdod lleol
- cydymffurfio â rheoliadau gwasanaethau maethu a'r safonau gofynnol cenedlaethol
- ansawdd yr arweinyddiaeth, rhianta corfforaethol a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn penderfynu, datblygu a chefnogi digonolrwydd y gwasanaeth a'r ddarpariaeth ohono, yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'u teuluoedd

Er mai prif ffocws yr arolygiad oedd ar gynnydd a phrofiad y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac ar gyfnod pontio'r rhai sy'n gadael gofal i fod yn oedolion, roedd yr arolygiad yn cynnwys ffocws ar blant a phobl ifanc ac ymgysylltiad eu teuluoedd gyda’r canlynol:

- Gwasanaethau gwybodaeth, cyngor neu gymorth a gwasanaethau ataliol
- Asesu/ailasesu anghenion o ran gofal a chymorth a chynllunio gofal a chymorth
- Ymholiadau ynglŷn ag amddiffyn plant, gweithdrefnau, camau diogelu brys, a chynlluniau diogelu gofal a chymorth

Gwnaeth yr arolygwyr ddarllen ffeiliau achos, cyfweld â staff a rhannu arolwg staff, a chyfweld â rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Siaradodd yr arolygwyr â phlant a'u teuluoedd lle bynnag yr oedd yn bosib. Mynychodd pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal ddau grŵp ffocws.

## Trosolwg o'r canfyddiadau

- Canfuom fod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent weithlu ymrwymedig sy'n ymateb i lwyth gwaith sy’n mynd yn fwy ac yn fwy cymhleth. Roedd hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn nodi bod cyfradd y cynnydd presennol o ran niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn anghynaliadwy o ran safbwynt y gweithlu a'r sefyllfa gyllidebol.

- Mae galw cynyddol wedi bod o ran asesu unigolion cysylltiedig (neu leoliadau gyda gofalwyr sy'n berthynas) ac, yn y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y lleoliadau maethu 'prif ffrwd' heb newid rhyw lawer. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i flaenoriaethu rhoi adnoddau i asesiadau unigolion cysylltiedig ar draul asesiadau gofalwyr y brif ffrwd. Yn ei dro, bu mwy o ddibyniaeth ar leoliadau asiantaeth faethu annibynnol a lleoliadau y tu allan i'r ardal.

- Bu'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, felly, wynebu nifer o heriau sylweddol mewn perthynas â digonolrwydd lleoliadau. Golyga hyn fod plant a phobl ifanc wedi cael llai o ddewis o ran lleoliad, gan leihau'r opsiynau o ran lleoliadau sy'n cydweddu'n dda ac arwain yn gynyddol at blant sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau y tu allan i'w cymuned.

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymateb i'r materion hyn ar nifer o lefelau. Yn nodweddiadol, penodwyd swyddog recriwtio gofalwyr maeth ac mae cynlluniau i benodi pedwar gofalwr proffesiynol ychwanegol a fydd yn darparu llety ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac yn cynnig lleoliadau i rieni a babanod.

- Mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau arweinyddiaeth a rhianta corfforaethol ac wedi hyrwyddo sefydlogrwydd, diogelwch a llesiant plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent grŵp rheoli sefydlog yr oedd yn staff yn ystyried ei fod yn hawdd mynd ato ac yn gefnogol. Canfuom fod dyheadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu rhannu gan asiantaethau partner yn gyffredinol.

- Roedd y plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn profi ymyriadau amserol trwy fynediad at wybodaeth a chyngor priodol, a, lle bo'n briodol, asesiad ynghylch yr angen am ofal a chymorth.

- Fodd bynnag, canfuom nad oedd y rhyngwyneb rhwng gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol amlasiantaethol a gwasanaethau statudol yn gyson. Roedd y broses bontio rhwng gwasanaethau ar gyfer achosion teulu wedi'i nodweddu gan gamfynegiant ac nid oedd yr atgyfeirwyr yn sicr o ran canlyniad eu hatgyfeiriad.

- Nid oedd asesiadau wedi'u hategu bob amser gan ddadansoddiad proffesiynol cofnodedig a chlir o anghenion a chanlyniadau plentyn. Nid oedd y gwaith o nodi a rheoli'r perygl o niwed wedi'i lywio bob amser gan gyd-destun

hanesyddol a chyfredol, y tebygolrwydd o newid o fewn y teulu, neu gan ymchwil ac arfer gorau.

- Dangosodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ei fod yn gwerthfawrogi ac yn grymuso plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael llais effeithiol ac i ymgysylltu'n ystyrlon mewn asesiadau, penderfyniadau a chynlluniau. Nid oedd hyn yn amlwg bob amser o ran y ffordd roedd staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cofnodi gwaith achos.

- Roedd plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn drwy'r defnydd effeithiol o waith diogelu amlasiantaeth a throthwyon amddiffyn plant. Er hynny, roeddem yn bryderus fod gallu'r heddlu i ymateb yn brydlon i'r gofyniad i gynnal trafodaeth strategol wedi arwain yn rheolaidd at oedi o ran gwneud penderfyniadau.

- Roedd cynllunio gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn amrywio o ran ansawdd. Canfuom gynlluniau a oedd yn effeithiol wrth nodi ac ymateb i anghenion a phrofiad plant a phobl ifanc a rhai cynlluniau anghyson nad oeddent wedi'u hategu bob amser gan asesiad a oedd wedi'i ddiweddaru.

- Roedd cynlluniau i wneud trefniadau parhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu hadolygu'n effeithiol ac yn rheolaidd gan Swyddogion Adolygu Annibynnol.

- Canfuom enghreifftiau o blant a phobl ifanc yn elwa ar fyw mewn lleoliadau diogel a sefydlog a oedd yn diwallu eu hanghenion.

- Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithio'n dda gyda phartneriaid ac yn gweithredu fel rhiant rhesymol i sicrhau bod pobl ifanc a oedd yn paratoi i adael neu a oedd wedi gadael gofal yn cael cymorth effeithiol i'w cynorthwyo i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion.

## Meysydd i'w datblygu

### Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

1. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent nifer o bolisïau, gweithdrefnau a strategaethau allweddol i'w gorffen a'u gweithredu. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn arwain arfer a gosod disgwyliadau clir ar gyfer y gweithlu.

2. Nid yw'r Panel Anghenion Cymhleth wedi'i ddatblygu'n ddigonol o ran yr achosion sy'n cael eu hystyried a chyfraniad asiantaethau partner. Mae angen i gylch gorchwyl y panel gael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac er mwyn sicrhau bod proses sicrhau ansawdd gynhwysfawr ar waith mewn perthynas â lleoliadau a gomisiynir.

3. Byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn elwa ar fframwaith sicrhau ansawdd trosfwaol er mwyn caniatáu i weithgaredd monitro ac archwilio cydlynol herio a chefnogi arfer amlasiantaeth gweithredol yn rheolaidd.

### Trefniadau mynediad: gwybodaeth, cyngor a chymorth

4. Mae gwaith parhaus o ran y trothwyon ar gyfer ymyriadau ar draws gwasanaethau yn ofynnol er mwyn gwella'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol a'r gwasanaethau statudol er mwyn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu'n gyson.

### Asesiad

5. Mae angen gwella ansawdd yr asesiadau er mwyn dangos ystyriaeth lawn o'r angen a chofnod clir i ddangos bod anghenion a chanlyniadau lles y plentyn wedi cael eu dadansoddi.

6. Mae angen datblygiad pellach o ran ymgorffori'r model rheoli risgiau yr oedd y staff wedi cael hyfforddiant yn ei gylch. Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio i fodel sy'n hwyluso adeiladu perthynas mewn ffordd fedrus â theuluoedd.

### Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

7. Dylai'r defnydd o gontract disgwyliadau gael ei adolygu'n brydlon gan Bennaeth y Gwasanaeth er mwyn rhoi sicrwydd nad yw diogelwch plant yn cael ei beryglu.

8. Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sicrhau bod asesu a chynllunio yn dangos cyfranogiad gweithredol gan deuluoedd at lunio cynlluniau gofal a chymorth ar y cyd ac mae angen cofnodi hyn mewn ffordd sy'n arddangos bod datrysiadau yn cael eu creu ar y cyd i fynd i'r afael ag angen a risg.

**Diogelu**

9. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Heddlu Gwent a phartneriaid weithio ar y cyd i sicrhau bod yr holl drafodaethau strategaeth yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl ac o fewn 24 awr ar ôl y penderfyniad i'w cynnal. Mae'n rhaid i'r gwaith hwn sicrhau nad yw diogelwch plant yn cael ei beryglu.

**Camau nesaf**

Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ystyried y meysydd a nodwyd i'w datblygu a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â’r meysydd hyn a’u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgareddau ymgysylltu parhaus â'r awdurdod lleol.

## 1. Trefniadau mynediad: gwybodaeth, cyngor a chymorth

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae'r awdurdod yn cydweithio â sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, cadw'n gyfredol a gwneud y defnydd gorau o wybodaeth, cymorth a chyngor o'r sector statudol, gwirfoddol a phreifat a'r adnoddau sydd ar gael yn ei ardal. Mae gan bawb, gan gynnwys gofalwyr, fynediad at wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â gwasanaethau ac maent yn derbyn cyngor a chymorth yn ddi-oed, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r hyn y gallant ei ddisgwyl o ran yr ymateb a gânt gan y gwasanaeth. Mae trefniadau'n effeithiol wrth ohirio ac atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o fannau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n rhwydd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gyda ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae dangos y ffordd ac atgyfeirio pobl yn effeithiol yn cynnig dewis i bobl ynghylch cymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall trefniadau mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

1.1. Er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi datblygu gwasanaeth gwybodaeth, cymorth a chyngor. Mae aelod staff o'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac o Teuluoedd yn Gyntaf yn eistedd yn y tîm gwybodaeth, cymorth a chyngor. Mae hyn yn darparu cyfleoedd da ar gyfer cyfathrebu effeithiol a phrydlon. Mae'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael ei ailstrwythuro'n ddiweddar. Mae ei reolwr yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig sydd hefyd yn rheoli'r Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r staff yn cydnabod bod y swydd hon yn hanfodol o ran gwella'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau statudol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol. Mae hyn yn golygu y gall teuluoedd brofi dilyniant a chysondeb gwell o ran y gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

1.2. Bu cryn ffocws ar wella'r gwasanaethau ymyrraeth gynnar a'u rhyngwyneb â'r tîm gwaith cymdeithasol statudol. Yn ogystal â chael mynediad at gymorth drwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, gall teuluoedd hunangyfeirio hefyd at y gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd y staff yn deall y broses bontio rhwng gwasanaethau yn gyffredinol. Gwnaethant nodi bod y gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi newid eu ffocws i gefnogi teuluoedd gydag anghenion mwy cymhleth. Roedd y rhain yn achosion y byddai'r timau plant a theuluoedd statudol wedi eu rheoli yn y gorffennol.

1.3. Canfuom fod y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn parhau i ymwreiddio ac nid oedd wedi negodi trothwyon clir gyda phartneriaid neu rhwng timau hyd yn hyn. Roedd arwyddion nad oedd trothwyon yn cael eu cymhwyso'n gyson a bod trefniadau 'cam-i-fyny/cam-i-lawr' (sy'n ymwneud â throsglwyddo gwaith rhwng gwasanaethau) wedi'u nodweddu o bryd i'w gilydd gan gyfathrebu gwael. Nid oedd gweithwyr proffesiynol yn gyson o ran sut yr oeddent yn mynd i'r afael â'r mater o geisio am gydsyniad rhieni er mwyn gwneud atgyfeiriad. Dywedodd rheolwr fod gweithwyr Teuluoedd yn

Gyntaf wedi mynegi pryderon o ran risg gan nad oeddent yn gyfarwydd â gweithio gydag amgylchiadau mwy cymhleth. Roedd hyn yn broblem arbennig mewn perthynas â gwaith achos a oedd yn gysylltiedig â risg a phlant hŷn gan fod gweithwyr Teuluoedd yn Gyntaf yn fwy cyfarwydd â gweithio gyda grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, roedd y grŵp staff hwn wedi mynychu rhaglen hyfforddiant cyn i'r gwasanaeth ddechrau gweithredu ym mis Ebrill 2017 ac roedd ganddynt gefnogaeth staff gwaith cymdeithasol cymwysedig i'w cynorthwyo wrth reoli anghenion mwy cymhleth. Roedd tystiolaeth o ddangos y ffordd at wasanaethau ataliol gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, ond roedd angen rhagor o fewnbwn ac i asiantaethau eraill (ysgolion yn arbennig) fod yn glir o ran pa blant a theuluoedd y dylid eu hatgyfeirio at gymorth. Gall y diffyg eglurder hwn oedi mynediad at wasanaethau ar gyfer teuluoedd neu ychwanegu'n ddianghenraid at lwyth gwaith timau gwaith cymdeithasol lle y gall teuluoedd gael eu cefnogi mewn modd mwy priodol gan wasanaethau eraill. Mae goruchwyliaeth gan reolwyr o'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi bod yn broblem ac mae'n rhy gynnar i benderfynu a fydd trefniadau rheoli newydd yn datrys y mater hwn.

1.4. Gwelsom ddarlun cymysg o ran pa mor effeithiol yr oedd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd. O fewn rhai o'r ffeiliau achos a adolygwyd gennym, nid oedd lefel yr angen wedi'i nodi'n glir nac yn derbyn sylw cyson. Nid oedd asesiad llawn o'r angen yn cael ei gynnal o bryd i'w gilydd er gwaethaf y wybodaeth atgyfeirio a ddarparwyd a'r manylion hanesyddol a oedd yn nodi bod hyn yn ofynnol. Dangosodd y tîm gwybodaeth, cymorth a chyngor orddibyniaeth ar hunanadrodd gan y rhiant a oedd yn ymwneud â digwyddiad neu honiad, ac roedd yn diystyru'r gofyniad i gadarnhau esboniadau'n llawn a cheisio am safbwyntiau plant. Mae hyn yn golygu na all Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod yn sicr y bydd plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth yn derbyn hyn.

1.5. Roedd rhai o'r gweithwyr proffesiynol wedi'u lleoli'n dda er mwyn helpu i wella gwaith rhyngddisgyblaethol, yn arbennig y rheini a oedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion. Ar y cyfan, roedd plant a theuluoedd yn profi canlyniadau cadarnhaol; fodd bynnag, gallai goruchwyliaeth well gan reolwyr a chasglu a dadansoddi gwybodaeth mewn modd mwy trylwyr yn ystod cam cynharach fod wedi arwain at ganlyniadau gwell.

1.6. Mae cynaliadwyedd yr amrediad o wasanaethau ymyrraeth gynnar yn dibynnu'n bennaf ar arian grant tymor byr. Codwyd pryderon ynglŷn â hyn gan sawl rheolwr gan ei fod yn cyflwyno problem o ran dilyniant a datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ymhellach sy'n dibynnu'n bennaf ar arian grant ac yn rhwym i gyfyngiadau'r grant.

## 2. Asesiad

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae'r holl bobl sydd â hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn derbyn un yn eu dewis iaith. Mae'r holl ofalwyr y mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad anghenion gofalwr, waeth pa fath o ofal a ddarperir, faint yw eu hincwm ariannol, neu ba lefel o gymorth y gallai fod ei hangen. Mae pobl yn derbyn asesiad amserol o'u hanghenion sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewisiadau. Mae asesiadau yn ystyried canlyniadau a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau personol y sawl sy'n cael ei asesu a rhai'r bobl berthnasol eraill, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol ac yn gyson â hybu eu lles a'u diogelwch yn ogystal â lles a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau yn darparu dealltwriaeth eglur o beth fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i anghenion a nodwyd. Mae camau gweithredu a argymhellir, sydd â'r bwriad o gyflawni canlyniadau sydd o bwys i bobl, yn cael eu nodi ac yn cynnwys yr holl rai y gellir eu bodloni trwy wasanaethau ataliol neu gymunedol yn ogystal â darpariaeth arbenigol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

2.1. Roedd yr asesiadau a welwyd o ansawdd amrywiol. Canfuom nad oedd y ffeiliau achos yn cofnodi tystiolaeth glir yn rheolaidd ynghylch sut yr oedd mynediad at wasanaethau yn cael ei bennu na pham yr oedd yr achos wedi cael ei bennu'n briodol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf neu'r gwasanaethau statudol. Nid oedd yr asesiadau a welwyd yn mynd i'r afael â materion risg yn gyson. Er y ceisiwyd am hanes y plentyn, nid oedd y cofnod yn dangos sut yr oedd yn cael ei ddadansoddi er mwyn llywio'r penderfyniad na'r pwys a roddwyd ar y materion a nodwyd. Golyga hyn y gall patrymau perthnasol neu dueddiadau hanesyddol gael eu hesgeuluso, gan arwain at benderfyniadau gwael.

2.2. Roedd tystiolaeth o rai asesiadau trylwyr a chraff a oedd yn dadansoddi cryfderau a risgiau ac yn arwain at ganlyniadau da. Gwnaethom nodi achos lle yr oedd gweithwyr cymdeithasol wedi ymateb i atgyfeiriad amddiffyn plentyn gydag ymgysylltiad prydlon gan y teulu estynedig i gyfrannu at y cynllun gofal a chymorth. Defnyddiwyd gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg er mwyn cynorthwyo'r teulu. Dangosodd yr achos hwn sut yr oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cyfathrebu'n effeithiol gyda'r teulu, a oedd yn glir o ran yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt er mwyn caniatáu i'r plentyn aros gartref gyda chynlluniau a oedd yn adlewyrchu gallu'r teulu i newid.

2.3. Roedd tystiolaeth fod asesiadau yn cael eu cynnal mewn modd amserol a bod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu yn unol â'r gofynion. Er enghraifft, wrth ymateb i atgyfeiriad gan Tai Calon (Tai Cymunedol) ynghylch cyflyrau cartref gwael, trefnwyd ymweliad ar unwaith â'r cartref a threfnwyd cyfarfod yn brydlon, a fynychwyd gan weithwyr proffesiynol perthnasol. Gwnaethom gydnabod ansawdd proffesiynol y gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag amheuon cychwynnol y rhieni. Cafodd y teulu hwn ei 'gamu-i-lawr' wedyn i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol, a helpodd i gynnal y newidiadau.

2.4. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiadau bob amser yn dangos y pwys a roddwyd i’r wybodaeth a gasglwyd na pham yr oedd penderfyniad ynglŷn ag achos wedi cael ei wneud. Nid oedd asesiadau, felly, wedi'u hategu bob amser gan ddadansoddiad proffesiynol cofnodedig clir o anghenion y plentyn a'r canlyniadau llesiant. Nid oedd y cryfderau a rhwystrau wedi'u diffinio'n dda ac roedd llais y plentyn yn mynd ar goll o bryd i'w gilydd ymysg jargon ac iaith fformiwläig. Pan ofynnwyd i'r gweithwyr cymdeithasol am rywfaint o'r geiriad yn yr asesiadau, roeddent yn glir eu bod yn cael eu hysgrifennu yn yr arddull hon rhag ofn y byddai achos llys. Gallai hyn annog cydberthnasau gweithio gwrthwynebol gyda theuluoedd a throi'n ddianghenraid at y broses statudol.

2.5. Dangoswyd hyn mewn ambell waith achos pan gafodd hanes blaenorol neu hanes o gydweithrediad gwael ei ystyried yn rheswm i weithredu ymateb gwaith cymdeithasol statudol yn hytrach na chymorth i’r teulu, er gwaethaf cyfnodau hir lle yr oedd teuluoedd wedi ymdopi heb unrhyw ymyrraeth broffesiynol. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn diffinio a chynhyrchu ar y cyd y canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni. Mae Pennaeth y Gwasanaeth wedi derbyn efallai bod ffordd o feddwl a arweinir gan y llys yn gyrru penderfyniadau ynglŷn ag achosion, gan arwain at gyflwyno mwy o achosion gerbron y llys. Gall hyn greu ffordd o feddwl sy'n gyfreithiol ac yn wrth-risg.

2.6. Canfuom fod contract o ddisgwyliadau yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd er mwyn ategu cynlluniau gofal a chymorth ar achosion sy'n agored i weithwyr cymdeithasol. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol wrth egluro a rhannu pryderon i gefnogi cynllun gofal a chymorth amddiffyn plentyn; fodd bynnag, canfuom eu bod yn cael eu hysgrifennu ar ffurf rhestr o'r pethau y disgwylir i rieni gydymffurfio â nhw nad oeddent yn rhoi unrhyw sicrwydd o ran diogelwch. Gwelsom enghreifftiau o lle y defnyddiwyd contractau lle y byddai wedi bod yn fwy addas i ddilyn gweithdrefnau amddiffyn plant. Gall hyn beri risg o niwed i blant a phobl ifanc.

2.7. Ni welsom dystiolaeth fod asesiadau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r angen newidiol hyd yn oed pan oedd gwasanaethau yn parhau i gyfrannu'n sylweddol. Nid oedd yr asesiadau yn cael eu rhannu'n rheolaidd gyda phobl ychwaith ac roedd diffyg eglurder yn y cofnodion o ran cydsyniad rhieni. Nid oedd yr adborth i atgyfeirwyr yn gyson ychwaith.

## 3. Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn derbyn gofal, cymorth ac amddiffyniad amlasiantaeth sy’n amserol ac effeithiol lle bo'n briodol. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, dewis a lles, sy’n helpu i'w cadw'n ddiogel, ac sy’n adlewyrchu'r canlyniadau sydd o bwys iddynt. Mae pobl yn cael cymorth i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i'w cynhwysiant cymdeithasol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

3.1. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent dimau ardal sy'n ymdrin â Thredegar, Glynebwy, Abertyleri a Bryn-mawr. Rhagwelwyd y byddai sefydlu'r timau yn lleihau nifer y newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda theuluoedd o'u cymharu â'r hen strwythurau tîm. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod nhw wedi rhagweld y byddai'r strwythurau newydd yn cynyddu'r amser sydd ar gael i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd. Nid yw hyn wedi digwydd mewn gwirionedd gan fod y maint o waith a phrosesau wedi tynnu sylw oddi wrth hyn. Fodd bynnag, roedd y staff yn gadarnhaol am y Tîm Cefnogi Newid newydd a sefydlwyd ar ddiwedd 2017. Dylai hyn alluogi gweithwyr cymdeithasol i ddefnyddio eu sgiliau i weithio'n uniongyrchol â theuluoedd.

3.2. Roedd cynlluniau gofal a chymorth plant a phobl ifanc wedi'u cefnogi gan asiantaethau partner pan oedd angen ac roeddent yn cael eu hadolygu mewn da bryd. Roedd data perfformiad yn nodi amseroldeb y cynadleddau amddiffyn plant ac roedd yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal o safon uchel. Mae hyn yn arwyddocaol gan ei fod yn golygu bod anghenion a diogelwch plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan grŵp amlasiantaeth.

3.3. Nid oedd y ffurflenni a ddefnyddir ar gyfer cynllunio gofal a chymorth mor effeithiol â'r cynlluniau gofal a chymorth: nid oeddent yn llifo o'r asesiadau ac roeddent wedi'u llywio'n gyson gan restrau a thasgau. Er enghraifft, rhoddwyd rhestr i riant gyda phroblemau iechyd meddwl o dasgau i'w cyflawni fel rhan o gynllun amddiffyn gofal a chymorth er mwyn dangos cydweithredu. Nid oedd y cynllun yn adlewyrchu'r arwyddocâd na'r pwysau a roddwyd ar bob un o'r camau gweithredu na'r canlyniadau o beidio â'u bodloni ar gyfer y plentyn. Nid oedd y cofnod yn adlewyrchu sut yr oedd asiantaethau yn cefnogi'r rhiant i gyflawni'r tasgau hyn er bod rhywfaint o waith arwyddocaol wedi'i wneud. Roedd yr achos hwn mewn perygl o waethygu gan nad oedd y canlyniadau gofynnol yn ddigon eglur ac na chofnodwyd yr hyn a oedd yn gweithio neu nad oedd yn gweithio, na'r hyn a fyddai'n digwydd nesaf.

3.4. Byddai'r cynlluniau gofal a chymorth, gan gynnwys y rheini ar gyfer amddiffyn plant, yn elwa ar ffocws cliriach ar ganlyniadau. Nid oedd safbwyntiau pobl mewn perthynas â'u hasesiad a'u cynlluniau wedi'u cynnwys yn gyffredinol.

Roedd tystiolaeth brin yn y ffeiliau o safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r teulu. Mewn rhai achosion, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y cynlluniau yn cael eu rhannu â theuluoedd. Mae hyn yn golygu efallai na fydd teuluoedd a phartneriaid yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt gydag ansicrwydd o ran amserlenni.

**Y rhai sy'n gadael gofal**

3.5. Gall y rhai sy'n gadael gofal fod yn hyderus fod yr awdurdod lleol yn cefnogi eu cyfnod pontio i fod yn oedolion drwy ddarparu cymorth ymarferol, emosiynol ac ariannol nes eu bod nhw'n 21 mlwydd oed o leiaf a nes eu bod yn 25 mlwydd oed pan fo angen. Roedd y cynlluniau llwybr cyffredinol a adolygwyd gennym yn unol â'r gofynion. I raddau llethol, roedd y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn gadarnhaol ynghylch y math o gymorth a gawsant ac argaeledd eu cynorthwyydd personol. Roedd lleoliad y cynorthwyydd personol o fewn y tîm 14 a hŷn yn helpu dilyniant a chyfathrebu rhwng yr aelodau tîm. Roedd prif swyddfa'r tîm yn cael ei hailwampio ar adeg yr arolygiad er mwyn cynnig cyfleusterau cyfagos i alluogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol.

3.6. Nodwyd perthnasau gweithio da a gweithio da ar y cyd rhwng gweithwyr cymdeithasol a'r staff tai, a dealltwriaeth eglur o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd. Atgyfnerthwyd hyn drwy arweinyddiaeth rheolwyr allweddol. Roedd swydd Swyddog Ieuenctid a Llety Dros Dro yn canolbwyntio'n arbennig ar gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc ddigartref. Roedd y gweithiwr hwn yn darparu cyngor ac yn gyswllt i'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r tîm 14 a hŷn. Mae'r awdurdod wedi datblygu rhywfaint o lety cyfyngedig â chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n darparu cymorth fel y bo'r angen, ac mae'n gweithio'n agos gyda chymdeithasau tai ar gynlluniau cymorth cofleidiol a phrosiectau ymyriad teuluol dwysach. Cynrychiolwyd y staff tai ar y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ac mae gan y bwrdd is-grŵp sy'n canolbwyntio ar anghenion llety. Mae hyn wedi arwain at weithio ar y cyd da ac yn golygu bod pobl ifanc sy'n gadael gofal neu mewn perygl o ddigartrefedd yn derbyn cymorth effeithiol i'w cynorthwyo i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion.

3.7. Siaradodd y gweithwyr cymdeithasol am gymorth rhyngddisgyblaethol da gan Goleg Gwent. Roedd protocol rhannu gwybodaeth wedi cael ei ddatblygu gyda'r coleg ac roedd staff y coleg yn mynychu cyfarfodydd y tîm 14 a hŷn. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn cydnabod bod perthnasau gweithio agos gyda staff y Tîm Dysgu Ychwanegol a'r Tîm Ysbrydoli yng Ngholeg Gwent wedi helpu i ddatblygu ymatebion llai gwrth-risg ac wedi arwain at gyfleoedd gwell i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant.

3.8. Roedd gan y tîm 14 a hŷn garfan o bobl ifanc a oedd wedi cael eu hasesu fel rhai a oedd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio'n rhywiol. Roedd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol wedi olrhain sampl o achosion ac wedi dangos bod y risg wedi lleihau dros amser. Roedd yr asesiadau yn glir ac yn cynnwys

tystiolaeth o weithio ar y cyd gyda gwasanaethau arbenigol megis asiantaethau cyffuriau, iechyd a'r heddlu i nodi unigolion sydd â risg uchel. Gwelsom dystiolaeth o ddadansoddi da a chynlluniau realistig a oedd yn cynnwys dymuniadau a theimladau'r unigolyn ifanc. Er enghraifft, arweiniodd gwaith agos gyda'r heddlu at unigolyn ifanc a oedd yn hysbys i'r heddlu yn cael ei nodi fel oedolyn sy'n agored i niwed. Roedd yr heddlu'n mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth ac roedd hyn yn atal yr angen ar gyfer dull plismona mwy llym.

3.9. Roedd y gwasanaethau plant ac oedolion wedi integreiddio eu timau anabledd ym mis Ebrill 2017, gyda rheolaeth linell sengl. Ystyriwyd bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y broses bontio rhwng gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl, gyda chysondeb a ffocws gwell ar faterion a oedd yn codi wrth bontio i fod yn oedolyn.

**Cynllunio parhad**

3.10. Er gwaethaf y problemau a nodwyd o ran nifer prin y lleoliadau sydd ar gael, canfuom fod plant a phobl ifanc wedi elwa ar fyw mewn lleoliadau a llety diogel a sefydlog sy'n diwallu eu hanghenion. Roedd lleoliad hirsefydlog unigolyn ifanc a leolwyd gyda gofalwyr maeth yn destun trefniadau *Pan fydda i'n barod*, ac roedd yr unigolyn ifanc yn bwriadu mynd i'r brifysgol. Roedd unigolyn ifanc a leolwyd y tu allan i'r ardal sirol yn byw'n ddiogel gyda gofalwyr. Roedd yr adolygiadau'n cael eu mynychu'n dda gan bartneriaid iechyd ac addysg, gan adlewyrchu'r ymrwymiad corfforaethol i'r unigolyn ifanc hwn.

3.11. Gwnaethom gwrdd â grŵp o blant sy'n derbyn gofal a ddisgrifiodd enghreifftiau rhagorol o leoliadau maethu cefnogol iawn. Gwnaethant ddisgrifio profiadau cadarnhaol o ofalwyr maeth a oedd yn cynnig llawer o gyfleoedd cymdeithasol, yn ystyried eu bod yn rhan o deulu, ac yn eu cynorthwyo i deimlo fel bod eraill yn gwrando arnynt. Roedd hyn wedi arwain at ymlyniad da â'u gofalwyr. Roedd sefydlogrwydd lleoliadau, felly, yn rhagorol ar gyfer y plant hyn, yr oedd ganddynt leoliadau tymor canolig a hirdymor o fewn gofal maeth. Cadarnhaodd archwiliadau o'r ffeiliau achos a chyfweliadau gyda gofalwyr maeth fod lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn addas ac yn sefydlog, gyda phlant a oedd yn cyflawni canlyniadau da ers byw gyda gofalwyr maeth. Dywedodd y gofalwyr maeth eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol. Mae hyn yn bwysig gan ei bod yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â heriau o ran lleoliadau ac yn sicrhau bod lleoliadau yn ddiogel ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Dewis lleoliad, sefydlogrwydd a lles**

3.12. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent brosesau ar waith er mwyn bodloni gofynion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, disgwyliadau'r llys ac amserlenni sy'n cael eu bodloni'n rheolaidd, er gwaethaf y pwysau y mae hyn yn eu gosod wedyn ar rannau eraill o'r system. Mae cyfreithwyr yr awdurdod lleol wedi bod yn gweithio gydag adnoddau prin ac mae hyn wedi

arwain at waith achos cyfreithiol yn cael ei gontractio allan i gwmnïau preifat. Ystyriwyd bod y cyfarfodydd *Re B*, pan fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn galw gwrandawiad terfynol wrth bennu cynllun parhad i blentyn, yn effeithiol gan weithwyr cymdeithasol.

3.13. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wrthym fod proffil cyfreithiol ei blant sy'n derbyn gofal wedi newid, gan adlewyrchu disgwyliadau barnwrol. Dangosodd data perfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod cynnydd o 75% wedi bod mewn 'lleoliadau gyda rhiant' a lleoliadau unigolyn cysylltiedig yn y pum mlynedd yn arwain at 2018. Roedd y Tîm Lleoli Teuluoedd wedi profi heriau wrth recriwtio gofalwyr prif ffrwd; dros bum mlynedd, mae nifer y lleoliadau gofal maeth prif ffrwd wedi aros yn ddigyfnewid ar y cyfan er gwaethaf cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal o bron i gant yn yr un cyfnod. Gwnaethom nodi achosion lle'r oedd y lleoliad a benodwyd wedi'i briodoli i ddisgwyliadau barnwrol, a rhoddwyd cyfarwyddyd i weithwyr cymdeithasol asesu pobl gysylltiedig yn ffurfiol. Mae hyn wedi arwain at gapasiti cyfyngedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gyflawni asesiadau gofalwyr maeth prif ffrwd.

3.14. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cydnabod bod angen iddo adolygu cylch gorchwyl ei Banel Anghenion Cymhleth. Nid yw'r panel yn derbyn achosion i'r agenda mewn da bryd ac nid yw'r aelodaeth yn gyson. Nid oes proses sicrhau ansawdd ar gyfer lleoliadau a gomisiynir na dealltwriaeth glir o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid oedd rhai o'r asesiadau anghenion cymhleth a adolygwyd yn ystod yr arolygiad yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o broses sicrhau ansawdd ar gyfer y ddarpariaeth. Er enghraifft, roedd plentyn wedi cael ei leoli y tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac, er bod yr awdurdod lleol ble y lleolwyd y plentyn wedi cael ei hysbysu, nid oedd cofnodion y Panel Anghenion Cymhleth yn cynnwys unrhyw fanylion nac eglurder o ran addasrwydd y lleoliad. Nid oedd asesiad o'r plentyn wedi cael ei ddiweddaru cyn y lleoliad, er gwaethaf pedwar lleoliad blaenorol aflwyddiannus. Mae hyn yn golygu nad yw proses y Panel Anghenion Cymhleth yn rhoi sicrwydd fod yr holl bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth sy'n byw i ffwrdd o'u cymuned eu hunain yn byw mewn cartrefi priodol.

3.15. Mae'r awdurdod yn cael hysbysiadau ynglŷn â lleoliadau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gan awdurdodau lleol eraill. Roedd y rhain yn cynnwys manylion sylfaenol ond nid oeddent yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â risg na chopi o'r cynllun gofal a chymorth. Nid oedd hysbysiadau yn cael eu darparu bob amser pan oedd lleoliadau yn dod i ben. Mewn un achos, roedd awdurdod cyfagos yn dal i fod yn atebol am reoli achosion ond, o ystyried cyfnodau o redeg i ffwrdd yn yr ardal leol, byddai asesiad risg ar ffeil Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi helpu gweithwyr proffesiynol lleol i reoli a lleihau'r risgiau i'r unigolyn ifanc.

3.16. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent broses sefydledig ar gyfer comisiynu lleoliadau. Canfuom fod y Cydlynydd Lleoliadau yn chwarae rhan bwysig yn y broses hon a'i fod wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth

ynglŷn â darparwyr. Fodd bynnag, roedd diffyg dewis o ran lleoliadau yn broblem sylweddol. Roedd hyn yn golygu mai canlyniad rheolaidd chwiliadau brys am leoliad yn dilyn cais oedd dim lleoliad yn cael ei sicrhau, gyda dibyniaeth gynyddol ar y farchnad asiantaeth faethu annibynnol a lleoliadau y tu allan i ffiniau'r sir. Mewn ymateb, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn treialu cynllun i recriwtio gofalwyr maeth proffesiynol arbenigol i gynnig llety i blant sydd ag anghenion cymhleth a darparu lleoliadau rhieni a babanod.

3.17. Mae Bwrdd Rhianta Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn fforwm rhagweithiol a chynhyrchiol. Ers 2015, mae wedi cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaeth ac mae'n cyfarfod bob tri mis. Mae dau is-grŵp yn gweithio yn unol â chynllun gweithredu blynyddol sy'n canolbwyntio ar lety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol wedi cwblhau gwaith i godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o ddiogelwch ar y rhyngrwyd a hunan-niweidio.

**Cyfranogiad**

3.18. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi comisiynu'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol i gynnal arolwg pobl ifanc mewn perthynas â chynllun gweithredu'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ac adroddiad *Breuddwydion Cudd* Comisiynydd Plant Cymru. Disgwylir iddo gael ei gyhoeddi'n hwyrach yn 2018. Ers mis Mehefin 2017, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn un o bedwar awdurdod yng Ngwent i ddatblygu gwasanaeth eirioli ac ymwelydd annibynnol a gomisiynir yn rhanbarthol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn sicrhau y bydd bob plentyn sy'n derbyn gofal yn cwrdd ag eiriolwr annibynnol. Canfuom fod y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn gweithio'n rhagweithiol gyda phlant a phobl ifanc a bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli drwy eu cyfranogiad gweithredol, fel sy'n briodol, at adolygiadau plant sy'n derbyn gofal.

## 4. Diogelu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Pan fydd pobl yn dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, neu mewn perygl ohonynt, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys sydd wedi'u trefnu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau rheoli risg neu ddiogelwch yn llwyddiannus wrth leihau risg wirioneddol neu bosibl. Nid yw pobl yn cael eu gadael mewn amgylcheddau anniogel neu beryglus. Mae polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn yn cael eu deall a'u hymgorffori'n dda ac yn cyfrannu at ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n codi. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir archwilio mewn modd agored ac adeiladol newidiadau a gwelliannau yn ymddygiad asiantaethau a pherfformiad proffesiynol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

4.1. Canfuom fod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn drwy drothwyon diogelu ac amddiffyn plant a oedd yn cael eu cymhwyso'n effeithiol. Gwnaethom nodi rhai enghreifftiau da o arferion amddiffyn plant a rhai enghreifftiau lle nad oedd y meddwl na'r penderfyniadau a wnaed yn cynnwys y lefel o fanylder sydd ei hangen ar gyfer arfer cadarn. Gellid priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith fod arferion yn canolbwyntio ar gasglu a pharatoi tystiolaeth ar gyfer y llys ac ar broses ffurfiol. Dywedwyd bod y defnydd o statws Adran 76 yn dod yn fwy ffurfiol ar draws y gwasanaeth, dan arweiniad disgwyliadau a osodwyd gan y llys yn datgan os nad yw plentyn wedi cael ei ailsefydlu gartref erbyn yr ail adolygiad plant sy'n derbyn gofal (ar ôl pedwar mis), yna dylai'r mater gael ei gyflwyno gerbron y llys. Roedd angen hefyd i gynllunio parhad sefydlu'n gyflym pa mor debygol oedd y gallai plant ddychwelyd adref. Dywedwyd bod y dull hwn wedi effeithio ar gynllunio parhad ac roedd yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o blant a oedd wedi'u lleoli gartref neu gyda pherthnasau ar orchymyn gofal.

4.2. Disgrifiodd Pennaeth y Gwasanaeth ddull eclectig ar gyfer gweithio gyda theuluoedd. Gwnaethom siarad â gweithwyr cymdeithasol a oedd wedi ymrwymo'n llawn i weithio'n effeithiol gyda theuluoedd ond roedd diffyg methodoleg glir o ran sut i adeiladu perthnasau gyda theuluoedd, yn rhannol o ganlyniad i'r ffocws ar dasgau a oedd yn cael ei lywio gan waith llys. Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar Fodel Asesu Risg Bruce Thornton, ond roedd y rheolwyr yn cydnabod nad oedd hyn wedi cael ei weithredu'n effeithiol ledled y gweithlu ac felly nid oedd y model wedi cael ei ymgorffori yn ymarferol.

4.3. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael asesiad mewn da bryd. Cafodd achosion diogelu newydd eu nodi a'u rheoli mewn modd amserol yn bennaf. Gwnaethom nodi ymateb prydlon i atgyfeiriadau amddiffyn plant ac ymatebion dilynol i ymholiadau ynglŷn ag amddiffyn plant a oedd yn cynnwys asiantaethau partner a'r teulu. Roedd asesiadau

cyfatebol yn cael eu cynnal o fewn 24 awr. Roedd tystiolaeth o risg yn cael ei nodi'n gynnar a chamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.

4.4. Roedd trothwyon diogelu, fodd bynnag, yn cael eu cymhwyso mewn modd anghyson. Cafodd hyn ei waethygu gan rai asiantaethau partner yn camddeall cyd-destun achosion amddiffyn plant, gan arwain at atgyfeiriadau amhriodol yn cael eu gwneud at wasanaethau statudol. Roedd staff yr ysgol wedi cael hyfforddiant helaeth ar ddiogelu gan y Rheolwr Diogelu Addysg, ond roedd dryswch yn parhau o ran gweithio rhyngasiantaethol effeithiol.

4.5. Pan oedd y gwasanaeth yn ymateb i atgyfeiriadau amddiffyn plant, canfuom nad oedd diogelwch uniongyrchol plant a phobl ifanc yn cael ei sicrhau bob amser drwy drefniadau amlasiantaeth effeithiol. Nododd staff gwaith cymdeithasol er y gallai'r heddlu yn yr Uned Amddiffyn Heddlu fod yn gynorthwyol, roedd problemau o ran capasiti'r heddlu yn arwain at oedi wrth ymateb yn brydlon i bryderon amddiffyn plant. O ran cynnal trafodaethau strategaeth, rhoddwyd cyfnod amser i'r awdurdod lleol gan yr heddlu o fewn 24 awr ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno (ond byddai'r ditectif ringyll yn ymateb os oedd yn achos brys). Roedd y ffeiliau achos a adolygwyd yn dangos rhywfaint o ymchwilio ar y cyd yn unig, er y rhoddodd staff enghreifftiau o hyn yn digwydd. Mae oedi yn ystod pwyntiau allweddol o ran rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau, yn enwedig trafodaethau ynghylch strategaeth, yn gallu gosod plant a phobl ifanc mewn perygl parhaus o niwed.

4.6. Roedd tystiolaeth o arfer da wrth ymateb i bobl ifanc yr adroddwyd eu bod nhw ar goll. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent er bod y niferoedd cyffredinol o blant yr adroddwyd eu bod ar goll yn ganran fach o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal, roedd y rhai a oedd wedi mynd ar goll wedi gwneud hynny ar sawl adeg. Dywedwyd bod yr holl gyfweliadau dychwelyd yn ddiogel wedi cael eu cwblhau o fewn 72 awr ar ôl i'r unigolyn ifanc ddychwelyd. Cynhelir y rhain gan weithwyr annibynnol o dîm un pwrpas Plant Coll Gwent. Mae'r tîm amlasiantaeth hwn yn monitro achosion o fynd ar goll ac yn rhannu'r wybodaeth a gesglir fel rhan o'i asesiadau risg.

4.7. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym fod llai o adnoddau cymorth busnes yn golygu bod oedi'n digwydd yn aml wrth ychwanegu cofnodion a chynlluniau cynadleddau achosion amddiffyn plant ar y system. Mae baich gwaith gweinyddol cynyddol a wneir gan weithwyr cymdeithasol wedi cael ei gydnabod gan uwch-reolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ond nid oes gan yr awdurdod ateb arfaethedig. Mae hyn yn golygu efallai na fydd gwybodaeth achos bwysig yn cael ei chofrestru ar y system, sy'n gallu effeithio ar arferion diogelu a diogelwch pobl.

4.8. Gwnaethom gydnabod rhai canlyniadau cadarnhaol a nodwyd drwy ddefnyddio'r broses statudol a phroses y llys. Arweiniodd achos yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau gan riant at gynllun cyn geni yn cael ei ddatblygu'n brydlon, ac roedd y plentyn yn gallu dychwelyd adref i'r rhieni. Yn y lle cyntaf, roedd y plentyn yn byw gyda theulu estynedig cyn symud i gartref y rhieni yn dilyn cyfnod asesu pan oedd y rhieni wedi profi eu gallu i

newid er mwyn rhianta'n ddiogel. Roedd hyn yn arddangos sut y gall risgiau uchel gael eu rheoli'n effeithiol drwy gynllunio gofal a chymorth manwl.

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ac yn sefydlu strategaeth effeithiol gyda'i gilydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ansawdd a chanlyniadau da ar gyfer pobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir ar gyfer cynghorwyr, rheolwyr a staff. Mae gwasanaethau'n cael eu harwain yn dda, mae'r cyfeiriad yn glir, ac mae arweinyddiaeth newid yn gryf. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau drwy gydol y sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi gofal a chymorth i bobl ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Mae cyfranogiad gan bobl leol yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig ddigonedd o wybodaeth a dealltwriaeth o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

5.1. Canfuom fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi sefydlu llinellau atebolrwydd a llywodraethu clir. Mae gan yr awdurdod gyfran uchel o aelodau sydd newydd gael eu hethol, ond roedd yr aelodau a'r uwch-swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd a chyda phartneriaid er mwyn cynnig arweinyddiaeth sefydlog a chyfeiriad strategol clir er mwyn datblygu a darparu gwasanaethau plant. Roedd y flaenoriaeth a roddir i wasanaethau plant yn amlwg, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

5.2. Mae'r ffocws strategol allweddol wedi'i amlinellu yn y *Strategaeth Lleihau yn Ddiogel Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal* 2017–20. Mae hon hefyd yn amlinellu sut mae teuluoedd yn gallu cael mynediad at ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau'r angen ar gyfer ymyriadau statudol yn ogystal ag uwchgyfeirio pryderon sy'n arwain at blant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal.

5.3. Canfuom fod goruchwyliaeth gan reolwyr o arfer rheng flaen yn effeithiol a bod uwch-reolwyr yn cadw golwg ar bwysau presennol y gwasanaeth. Roedd y rheolwyr yn gyfarwydd ag asesiadau unigol a chynlluniau gofal a chymorth, ond nid oedd hyn yn amlwg bob amser yn y ffeiliau achos ac nid oedd yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad oedd wedi gweithio'n dda yn eglur.

5.4. Roedd y staff yn gwerthfawrogi cefnogaeth y rheolwyr, gan gynnwys yr uwch-reolwyr, a dywedwyd eu bod yn hawdd mynd atynt. Canfuom fod Pennaeth y Gwasanaeth wedi magu diwylliant cefnogol a chynhwysol. Ystyriwyd bod yr oruchwyliaeth yn gadarnhaol yn dilyn cyfnod aflonyddus yn 2016 pan oedd nifer o heriau difrifol yn y gweithlu a oedd yn effeithio ar ansawdd ac amlder yr oruchwyliaeth. Canfuom fod y gweithlu wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn y fwrdeistref ac i weithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Ategwyd hyn gan ddata'r gweithlu. Er bod rhai timau yn profi swyddi gwag ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi adrodd trosiant staff isel, gyda throsiant o 1.3% ar ddiwedd Chwarter 3 ar gyfer 2017/18. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adrodd hefyd nad oedd 80% o'r plant

sy'n derbyn gofal wedi profi newid yn eu gweithiwr cymdeithasol yn y chwe mis diwethaf.

## Methodoleg

### Hunanasesu

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hunanasesiad cyn y gwaith maes. Gofynnwyd i'r awdurdod ddarparu tystiolaeth yn erbyn *"yr hyn rydym yn disgwyl ei weld"* o dan bob dimensiwn allweddol a arolygwyd. Defnyddiwyd yr wybodaeth i lunio manylion y meysydd manwl i'w harchwilio yn ystod yr arolygiad.

### Gwaith maes

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 56 ffeil achos; aethom ar drywydd 18 o'r rhain drwy gyfweliadau olrhain a gynhaliwyd gyda gweithwyr cymdeithasol ac aelodau teulu, ac roedd pedwar yn destun grŵp ffocws olrhain. Roedd yr olaf yn grŵp ffocws a oedd yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r teulu hwnnw.

Gwnaethom gyfweld â phlant, rhieni a pherthnasau.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o weithwyr yr awdurdod lleol, aelodau, uwch-swyddogion, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a rheolwr gyfarwyddwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, a oedd yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o bump o ffeiliau goruchwylio staff.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion a wnaed am y gwasanaethau plant.

### Y tîm arolygu:

Prif arolygydd: Michael Holding. Arolygwyr ategol: Sharon Eastlake, Duncan Marshall, Ann Rowling a Katy Young.

## Cydnabyddiaethau

Dymuna AGC ddiolch i'r bobl ganlynol a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr ac aelodau, a sefydliadau partner.